**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17th March 2008**

## DIRPRWYO PWERAU DROS DRO CYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL

**Adroddiad gan Ian Miller, Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I ddirprwyo pwerau o ddiwedd cyfnod mewn swydd aelodau presennol yr awdurdod tân i gyfarfod cyntaf yr awdurdod tân ar ôl yr etholiadau.

### Cefndir

**2.** Bydd etholiadau'r awdurdodau lleol yn cael eu cynnal eleni ar 1 Mai. Mae Adran 26(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn dweud "on the fourth day after any such ordinary election –

(a) the persons who were councillors immediately before the election shall retire; and

(b) the newly elected councillors shall assume office."

Felly, mae cynghorwyr yn parhau yn y swyddi tan Ddydd Llun 5 Mai 2008 pan fydd y cynghorwyr etholedig newydd yn dechrau eu swydd.

**3.** Yn yr un modd, mae aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub yn aros yn eu swyddi hyd y 5 Mai 2008, ond mae dyddiad eu holynwyr yn dibynnu ar ba mor gyflym mae'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol yn gwneud eu penodiadau yn unol ag erthyglau 12 a 13 o'r gorchymyn cyfuno. Ni fydd y fath benodiadau o angenrheidrwydd yn cael eu gwneud yn ystod cyfarfodydd cyntaf y cynghorau newydd, yn enwedig os fyddai'r penodiadau yn swyddogaethau gweithredol ddirprwywyd i Gabinetau.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Etholwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod ar 18 Mehefin 2007. Mae Erthygl 17(2) o'r Gorchymyn Cyfuno yn dweud eu bod yn "hold office for a period of one year from the date of their election". Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwrthwneud paragraff 13 sy'n dweud "a member of the Authority shall ….. hold office for such period ….. as shall be determined by the constituent authority which appoints him" : tymor mewn swydd yr holl aelodau yw hyd at yr etholiadau ym Mai 2008. Felly, hyd yn oed os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd presennol yn cael eu hailethol fel cynghorwr ac yn cael eu hailbenodi ar yr Awdurdod Tân gan eu cynghorau, ni allant ymgymryd nac ailddechrau unrhyw swydd gyda'r Awdurdod Tân oni bai fod yr Awdurdod Tân ei hunan yn penderfynu hyn yn ei gyfarfod ar 16eg Mehefin. Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys i aelodau o'r Panel Gweithredol ac i'r ddau aelod o'r Awdurdod sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**5.** Felly, rhwng dydd Llun 5 Mai a'r Cyfarfod Blynyddol, sydd wedi ei drefnu ar gyfer dydd Llun 16 Mehefin, does dim mecanwaith yn ei lle ar gyfer unrhyw benderfyniad fyddai fel arfer yn disgyn i aelodau etholedig eu cymryd. Bydd sefyllfa debyg yn codi pob pedair blynedd, yn dilyn pob etholiad cyffredinol o gynghorwyr.

**6.** Tra bod modd lleihau'r bwlch yma drwy ddod â dyddiad y Cyfarfod Blynyddol yn ei flaen, ni allwn ddod â'r dyddiad yn ei flaen gormod oherwydd bod perygl na fyddai'r holl gynghorau wedi gwneud eu penodiadau.

**Cyngor**

**7.** Yn ystod y cyfnod hwn rhaid i ddirprwyaeth briodol fod yn ei le er mwyn galluogi ymdrin ag unrhyw benderfyniad fyddai fel arfer yn disgyn i aelodau ac na ellir ei oedi nes cyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ar ôl etholiadau Mai. Byddai'r ddirprwyaeth yn cynnwys yr holl bwerau a roddwyd i aelodau, yn cynnwys y rhai ymarferir gan y Panel Gweithredol a'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd (fyddai felly'n cynnwys er enghraifft, pŵer y Cadeirydd o dan Orchymyn Sefydlog 5(1) i alw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân).

**8.** Byddai'n amhriodol i ddirprwyaeth i gymryd unrhyw benderfyniadau o'r fath gael ei rhoi i gynghorydd neu gynghorwyr yn unig oherwydd nad oes gwarant byddai unrhyw un o'r aelodau presennol yn cael eu hailethol fel cynghorwyr na'u hailbenodi ar yr Awdurdod Tân.

**Argymhelliad**

**9.1** Fod pwerau'r Awdurdod Tân, ei bwyllgorau a'i ddeiliaid swyddi yn cael eu dirprwyo i'r:

**9.1.1** Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad gyda'r Clerc a'r Trysorydd, ar gyfer y cyfnod o 5 Mai 2008 nes unai'r dyddiad fod Cadeirydd neu Is-Gadeirydd yr Awdurdod Tân a etholwyd ym Mehefin 2007 yn cael eu hailbenodi ar yr Awdurdod Tân neu gyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ar 16 Mehefin 2008 os na fydd y naill na'r llall ohonynt yn cael eu hailbenodi, pa bynnag ddyddiad sydd gynharaf;

**9.1.2** Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod Tân os fydd un neu'r ddau ohonynt yn cael eu hailbenodi ar yr Awdurdod Tân o'r dyddiad maent yn cael eu hailbenodi tan gyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ar 16 Mehefin 2008.

**Argymhelliad** *(parhad)*

**9.2** Bydd y dirprwyaethau hyn yn gymwys yn unig i bwerau sy’n berthnasol i benderfyniadau na ellir yn rhesymol eu gohirio tan ddyddiad y cyfarfod cyntaf hwnnw.